

---

# Rhifau personol – Adolygiad o'r ystod rhifau 070

## Datganiad

---

Cyfrinachol – nid i'w gyhoeddi  
Mae gwybodaeth gyfrinachol wedi'i nod fel a ganlyn [~~cyfrinachol~~]

# Gair am y ddogfen hon

---

Mae rhifau 070 wedi'u dylunio i gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau personol neu 'dilynwch fi'. Pan fydd rhywun yn ffonio rhif 070, mae ei ddarparwr cyfathrebiadau yn talu ffi derfynu gyfanwerthol i ddarparwr y gwasanaeth 070 er mwyn i'r alwad gyrraedd y derbynnydd. Mae'r galwr wedyn yn wynebu pris adwerthu gan ei ddarparwr cyfathrebiadau am wneud yr alwad honno.

Fel rhan o'r Adolygiad o Gost Galwadau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, cynhaliwyd adolygiad o rifau 070 yn edrych ar y gost o alw rhifau 070 a'r camddefnydd cyson o'r rhifau hyn. Gwelsom fod darparwyr cyfathrebiadau sy'n dal rhifau 070 yn gallu gosod cyfraddau terfynu cyfanwerthol uchel ar gyfer galwadau sy'n cael eu gwneud i'w rhifau. Mae hyn yn niweidio defnyddwyr gan ei fod yn arwain at brisiau adwerthu uchel. Ar y cyfan, nid yw defnyddwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng rhifau 070 a galwadau sy'n cael eu gwneud i rifau symudol (sy'n dechrau gyda '07x' ac yn rhatach o lawer i'w ffonio), gan arwain at 'sioc biliau'. Ar ben hynny, mae'r cyfraddau terfynu cyfanwerthol uchel yn gymhelliant i gamddefnyddio'r rhifau 070 yn dwyllodrus. Mae hyn wedi cyfrannu at enw drwg yr ystod rhifau 070.

Yn y datganiad hwn rydym yn nodi ein penderfyniad terfynol ar sut y byddwn yn rheoleiddio rhifau 070.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol

4

# 1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae rhifau personol neu 'dilynwch fi', sy'n gweithredu yn yr ystod rhifau 070, yn caniatáu i ddefnyddwyr neu fusnesau gynnig un rhif cyswllt maent yn gallu ei gyfeirio at rif sefydlog neu symudol. Cafodd y rhain eu sefydlu cyn i grwydro symudol fod ar gael, er mwyn cynnig un rhif y gellid ei ddefnyddio wrth deithio yn y DU a thramor.
- 1.2 Mae cost galwadau i ffonau symudol wedi disgyn yn sylweddol ers iddynt gael eu cyflwyno ac maent a bellach wedi'u cynnwys mewn lwfansau galwadau cynhwysol yn gyffredinol<sup>1</sup>, ond mae costau ffonio rhifau 070 yn dal yn uchel.
- 1.3 Ymysg prif nodweddion gwasanaeth rhifau personol mae:
  - un rhif cyswllt;
  - gwasanaeth 'dilynwch fi unrhyw le' hawdd ei ddefnyddio; a
  - gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth, fel negeseuon a phost llais.<sup>2</sup>
- 1.4 Pan fydd pobl yn ffonio rhif 070, mae eu darparwr cyfathrebiadau yn talu ffi derfynu gyfanwerthol i ddarparwr y gwasanaeth er mwyn i'r alwad gyrraedd y derbynnydd. Mae'r galwr wedyn yn wynebu pris adwerthu gan ei ddarparwr cyfathrebiadau. Ar hyn o bryd mae'r galwr yn talu'r holl gostau am alwad 070.
- 1.5 Rydym yn credu bod gwerth posibl yr ystod rhifau 070 i'r rheini sy'n eu ffonio a'r rheini sy'n derbyn galwadau ganddynt wedi cael ei thanseilio gan ddarparwyr gwasanaeth 070 ("darparwyr 070") sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad. Mae'r darparwyr hyn yn gallu defnyddio'r pŵer i osod cyfraddau terfynu cyfanwerthol uchel, sy'n peri niwed i ddefnyddwyr. Yn gyntaf, mae defnyddwyr yn talu prisiau manwerthu uchel. Yn ail, nid yw defnyddwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng rhifau 070 a rhifau symudol 07x ar y cyfan, ac maent yn dueddol o fod yn anymwybodol fod galwadau 070 yn costio mwy o lawer na galwadau i rifau symudol 07x. Mae'r ddau ffactor yma'n ystumio dewisiadau defnyddwyr ac yn arwain at 'sioc biliau'.
- 1.6 Ar ben hynny, mae cyfraddau terfynu uchel yn gymhelliant i gamddefnyddio'r ystod 070 yn dwyllodrus, yn enwedig yn y ffyrdd canlynol:
  - **Twyll darparwyr gwasanaethau:** Er enghraifft sgamiau methu galwadau, lle efallai y bydd defnyddiwr yn dychwelyd galwad a fethwyd gan rif 070 gan ei fod wedi'i gamgymryd am rif symudol, neu'r arfer o hyrwyddo hysbysebion swydd ffug â rhif cyswllt 070.
  - **Chwyddiant traffig artiffisial rhyngwladol:** Mae rhai darparwyr 070, neu'r rheini sydd â chytundeb i elwa o gyfradd terfynu rhifau 070, yn gallu trefnu bod nifer sylweddol o alwadau 070 yn cael eu gwneud o wledydd lle nad yw cwmnïau ffôn yn cydnabod bod 070 yn wahanol i rif ffôn symudol arall o'r DU sy'n dechrau gyda 07x. Mae'r canolfannau,

---

<sup>1</sup> Mae rhai rhifau symudol yn y DU lle mae darparwyr a leolir yn y DU yn dal yn codi cyfraddau terfynu uwch na sy'n cael eu caniatáu gan ein mesurau rheoleiddio (gan arwain at ffioedd adwerthu uchel o ganlyniad). Rydym yn cynllunio rhaglen orfodi i fynd i'r afael â'r mater hwn.

<sup>2</sup> Ymysg yr enghreifftiau o'r ystod rhifau 070 sy'n cydymffurfio â phwrpas gwreiddiol y gwasanaeth mae defnydd mewn mân hysbysebion, defnydd ar ystafelloedd sgwrsio ar y rhyngwrdd gan y rheini sydd am siarad â phobl newydd heb roi eu rhifau ffôn go iawn, a defnydd gan gleifion mewnol ysbyty er mwyn iddynt gael eu rhif eu hunain gydol eu cyfnod yno.

felly'n codi tâl llai na'r gyfradd terfynu byddant yn ei thalu yn y pen draw. Er bod darparwyr cyfathrebiadau yn y DU yn ceisio dirwyn y cynlluniau hyn i ben, mae adnabod galwadau o'r fath yn gallu bod yn anodd a'r ymyriadau'n ddrud.

- **Twyll yn ymwneud â hunaniaeth:** Nid yw darparwyr gwasanaethau yn adennill y gost derfynu gan y derbynnydd fel arfer (eu cwsmeriaid eu hunain). Felly, nid oes angen iddynt wybod pwy yw'r derbynnyddion go iawn na sefydlu cysylltiadau talu. Mae hyn yn golygu bod modd defnyddio rhifau 070 at ddibenion troseddol o bosibl, lle mae gwir hunaniaeth y derbynnydd wedi cael ei guddio.

- 1.7 Hefyd, mae gennym dystiolaeth fod defnyddwyr dilys posibl o'r ystod 070 wedi dewis defnyddio ystodau eraill neu beidio ag ymuno â'r farchnad o ganlyniad i brisiau uchel a'r enw o dwyll.
- 1.8 Mae hyn yn dangos nad yw'r ystod 070 bellach yn gwasanaethu anghenion defnyddwyr yn briodol nac yn cyflawni'r swyddogaeth y bwriadwyd iddi ei chyflawni yn wreiddiol.

## Rhifau personol – adolygiad o'r ystod rhifau 070

- 1.9 Ar 12 Mai 2017, cyhoeddodd Ofcom Adolygiad o Gost Galwadau er mwyn archwilio'r gost o ffonio rhifau 118 a 070. Diben hyn yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu gwarchod rhag prisiau uchel ac ymarfer annheg. Mae'r datganiad hwn, y cyntaf i'w gyhoeddi mewn cysylltiad â'r adolygiad hwnnw, yn canolbwyntio ar yr ystod rhifau 070.
- 1.10 Ar 6 Rhagfyr 2017, cyhoeddod ni ein cynigion ar gyfer rheoleiddio cyfraddau terfynu cyfanwerthol ar gyfer rhifau 070 ("Ymgynghoriad Rhagfyr 2017"). Fe wnaethom nodi niwed i gystadleuaeth ac i ddefnyddwyr yn deillio o bŵer sylweddol yn y farchnad deiliaid yn yr ystod rhifau 070 o ran gosod ffioedd cyfanwerthol uchel ar gyfer galwadau i'r rhifau hynny.
- 1.11 Cawsom 20 ymateb i Ymgynghoriad Rhagfyr 2017. Rydym wedi ystyried yr ymatebion hynny wrth wneud ein penderfyniadau terfynol.

## Ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd

- 1.12 Ar 15 Awst 2018, rhoesom wybod i'r Comisiwn Ewropeaidd, BEREC ac Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol eraill am ein mesurau arfaethedig ynghyd â datganiad drafft esboniadol, ac fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad drafft ar wefan Ofcom. Yn ei lythyr penderfyniad ar 14 Medi 2018, nododd y Comisiwn Ewropeaidd ei fod wedi archwilio'r datganiad ac nad oedd ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud.

## Ein penderfyniadau

- 1.13 Yn gryno:
- **Rydym yn cadarnhau ein barn fod ffioedd cyfanwerthu uchel yn cael effaith negyddol ar y farchnad ar gyfer rhifau 070,** sydd wedi arwain at danseilio ei enw da ac at beri niwed i ddefnyddwyr.

- **Rydym wedi diffinio 127 marchnad ar wahân ar gyfer terfynu galwadau llais i rifau 070.** Mae pob marchnad yn cyfateb i ddarparwr sy'n gallu gosod cyfraddau terfynu ar gyfer galwadau llais 070 a ddyrannwyd gan Ofcom.
- **Rydym wedi dynodi bod gan bob un o'r 127 darparwr bŵer sylweddol yn y farchnad** ar gyfer terfynu galwadau i'r rhif(au) 070 y mae'n eu rheoli<sup>3</sup>. Mae gan ddarparwyr 070 bŵer sylweddol yn y farchnad oherwydd mae gan bob un fonopoli ar derfynu galwadau sy'n cael eu gwneud i'w hystod benodol o rifau.
- **Rydym yn gorfodi rheolaeth ffioedd ar bob darparwr 070, a fydd yn gosod cap ar y gyfradd derfynu gyfanwerthol y gallant ei chodi.** Byddwn yn gorfodi rheolaeth ffioedd ar bob darparwr 070, a fydd yn cael ei gosod ar yr un gyfradd â'r gyfradd derfynu symudol. Bydd hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2019. Rydym yn rhag-weld mai effaith debygol hyn fydd y caiff y gost o ffonio rhif 070, yn y dyfodol, ei rhannu rhwng y sawl sy'n gwneud yr alwad a'r derbynnnydd.

## Ein ffordd o fynd ati yn yr adolygiad hwn

- 1.14 Rydym wedi ystyried y dull priodol i'w ddefnyddio yng nghyswllt yr adolygiad hwn a'r rhwymedigaethau y byddwn yn eu gosod, o gofio'r amgylchiadau presennol, a sut bydd y farchnad yn newid yn ystod y cyfnod sy'n cael sylw yn yr adolygiad. Ein nod yw sicrhau bod y canlyniad yn diogelu buddiannau defnyddwyr heb roi dim mwy o faich rheoleiddio nag oedd yn angenrheidiol.
- 1.15 Rydym yn rhag-weld y bydd ein hateb yn mynd i'r afael â chanlyniadau gwael i ddefnyddwyr, yn ogystal â gwella enw'r ystod rhifau 070.
- 1.16 Yn benodol, drwy gysoni cyfradd derfynu galwadau 070 â chyfradd rhifau symudol, ni fydd y galwr yn gorfod talu cost gyfan yr alwad mwyach. Rydym yn rhag-weld y bydd darparwyr 070 felly'n ceisio adennill rhywfaint o'u costau gan eu cwsmeriaid, sef derbynwyr. Mae hyn yn debygol o annog defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy effeithlon rhwng defnyddio 070 a dewisiadau eraill (crwydro symudol yn arbennig).
- 1.17 Rydym hefyd yn rhag-weld y bydd cysoni ffi derfynu 070 â ffi rhifau symudol yn cael gwared ar y cymhellion ar gyfer twyll domestig a rhyngwladol. Dylai hefyd baratoi'r ffordd i ddarparwyr telegyfathrebiadau adwerthu brisio galwadau 070 a symudol yn debyg i'w gilydd a ddylai, yn ei dro, leihau'r posibilrwydd o niwed i ddefnyddwyr drwy 'sioc biliau'. Caiff darparwyr hefyd ddechrau cynnwys rhifau 070 mewn pecynnau galwadau cynhwysol. Byddwn yn annog darparwyr cyfathrebiadau adwerthol i ystyried y dewisiadau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'r mesurau rheoleiddio newydd ddod i rym.
- 1.18 Rydym yn deall, o ganlyniad i'r rheoleiddio, y bydd rhai darparwyr 070 sydd ar hyn o bryd yn darparu'r math o wasanaeth y bwriadwyd ei gyflawni ar yr ystod yn wreiddiol (fel y rheini sy'n cynnig gwasanaethau ar gyfer mân hysbysebion) yn penderfynu symud i ystod rifau wahanol efallai, ac yn wynebu costau pontio o ganlyniad. Fodd bynnag, mae sefydliadau eisoes wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio 070 heb amharu'n sylweddol ar eu model

<sup>3</sup> Mae'r ffigur diweddaraf hwn yn adlewyrchu'r newidiadau yn nifer y darparwyr 070 sy'n darparu gwasanaethau yn y farchnad hon ers Ymgynghoriad Rhagfyr 2017.

busnes, ac rydyn ni o'r farn fod lefel y niwed i ddefnyddwyr o'r ystod hon ar ei ffurf bresennol yn cyfiawnhau costau o'r fath; rydym yn rhag-weld y bydd y costau hyn yn gyfyngedig yn bennaf. Yn unol â hynny, rydym wedi penderfynu bod cyfnod pontio o ddeuddeg mis yn briodol.

- 1.19 Rydym yn credu y bydd yr atebion yn hybu cystadleuaeth effeithiol ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, a bod mesurau rheoleiddio yn briodol yn yr achos hwn.